Hen filwr dros Grist

(penderfyniad / dyfalbarhad / gweledigaeth / rhannu ag eraill)

Yn gynnar iawn yn y flwyddyn 1713 daeth awydd ar gurad ifanc Llandeilo Abercywyn i fynd yn genhadwr i India. “Maen nhw’n sôn byth a hefyd am i glerigwyr fel ni i fynd drosodd i genhadu yn enw Iesu Grist. Yn wir, Mam, mae gen i awydd mynd.” Edrychodd ei fam arno’n dosturiol, “Beth sy’n mynd i ddigwydd i mi, a minnau’n weddw os byddi di’n mynd i’r wlad bell ’na? Rwyf wedi dy fagu’n dyner a gofalus ar ôl i’th dad farw a thithau ond yn flwydd oed.” Meddyliodd Gruffydd Jones am eiriau ei fam drwy’r dydd. Gyda’r nos pan oedd y ddau’n cael swper meddai Gruffydd, “Mam, rydw i wedi bod yn pendroni drwy’r dydd am y syniad o fynd i India. Mae yna gymaint o dywyllwch a phaganiaeth, ofergoeliaeth ac anwybodaeth yma yng Nghymru a bellach mi rydw i wedi penderfynu aros yma. Mae Cymru fy angen.” Cysgodd ei fam yn sownd y noson honno.

Ymhen tair blynedd roedd wedi’i sefydlu yn offeiriad Llanddowror. Yma y bu’n llafurio weddill ei oes. Roedd yn bregethwr mawr a thyrrai miloedd i wrando arno. Weithiau byddai ei gynulleidfa yn gorlifo i’r mynwentydd, y caeau ac ochrau’r mynyddoedd. Nid yn unig roedd yn bregethwr poblogaidd roedd hefyd yn poeni am ei bobl. Sylweddolodd fod miloedd ar filoedd o bobl Cymru heb fedru darllen y Beibl.

Anfonodd at y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristnogol am nifer o Feiblau Cymraeg a dechreuodd ddysgu pobl ei blwyf i ddarllen. Gwelodd fod y plwyfolion yn awyddus iawn i ddysgu darllen. “Os gwn i,” meddai, “faint o bobl eraill mewn gwahanol rannau o Gymru fyddai’r un mor awyddus i ddysgu darllen pe caen nhw’r cyfle.”

Wrth bendroni un nos Sul ac yntau’n hepian o flaen y tân, meddyliodd, “Dyna syniad da petawn i’n dechrau hyfforddi athrawon yma yn Llanddowror a’u hanfon i wahanol ardaloedd i ddysgu’r bobl i ddarllen.” A dyna’n union a ddigwyddodd. Arhosai pob athro mewn ardal am dri mis neu fwy cyn symud ymlaen i ardal arall ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, byddai’n cynnal dosbarthiadau darllen yn ystod y dydd a hefyd gyda’r nos. Roedd pob ysgol yn rhad ac yn rhydd i bawb o bob oed.

Fe’u cynhelid gan amlaf yn ystod misoedd y gaeaf, a thrwy

gynnal ysgolion fin nos rhoddwyd cyfle i grefftwyr, llafurwyr, gweision a morynion i dderbyn addysg wedi oriau gwaith. Nid oedd gan Gruffydd Jones ryw lawer i'w ddweud dros ddysgu plant ac oedolion i ysgrifennu. Dim ond darllen a ddysgid yn ei ysgolion a'r Beibl a'r Catecism oedd y llyfrau a ddarllenid. Meddai, "Fe ŵyr pawb y gellir dysgu i'r werin anneallus fwy o wybodaeth mewn mis trwy ddysgu'r Catecism na thrwy bregethu iddynt dros eu holl fywyd."

Lledodd dylanwad ysgolion cylchynol Gruffydd Jones drwy Gymru i gyd. Mae sawl stori ddiddorol am yr hyn oedd yn digwydd yn yr ysgolion hyn. Ceir sôn am hen wragedd yn yr ysgolion yn wylo'n hidl am na chawsant y fath gyfle i ddysgu darllen pan oedden nhw'n blant bach. Roedd un eneth ifanc ddall wedi dysgu rhannau helaeth o'r Beibl mor dda ar ei chof fel y gallai hyfforddi plant ifanc eraill. Mae sôn hefyd am blentyn chwech oed yn codi cywilydd ar ei rieni drwy eu cymell i beidio â dechrau bwyta heb ddweud gras yn gyntaf ac i weddïo bob nos wrth erchwyn y gwely.

Pan fu farw Gruffydd Jones ym 1761 roedd bron i 3,500 o ysgolion wedi'u sefydlu ledled Cymru a thros 158,000 o ddisgyblion rhwng 6 a 70 oed wedi cael addysg ynddyn nhw yn ystod y cyfnod o dros chwarter canrif. Un o frawddegau cyson Gruffydd Jones oedd, "Anwybodaeth yw mam a mamaeth annuwioldeb", a thrwy ei weledigaeth fe wnaeth yn siŵr fod pobl Cymru yn medru darllen y Beibl a'i nod pennaf oedd i'r bobl ddod i adnabod Iesu Grist. Ond hefyd trwy roi addysg i'r bobl yn eu mamiaith llwyddodd i achub yr iaith Gymraeg.

Adnod: "Gwrthwynebwch ddiafol, ac efe a ffy oddi wrthych." Iago 4:7

Gweddi: Gwna fi, O Dduw, yn berson sy'n barod i wneud yr hyn rwyt ti eisiau i mi ei wneud. Amen.

Trafod:

- Ystyriwch beth fyddai wedi digwydd petai Gruffydd Jones wedi mynd yn genhadwr i India.
- Sut fuasech chi'n disgrifio cymeriad Gruffydd Jones?